## Ymateb Cafcass Cymru i adroddiad Gweithgor Cyfraith Breifat (adolygu Rhaglen Trefniadau Plentyn; PD12B FPR 2010)

## Cyflwyniad

1. Mae Cafcass Cymru yn sefydliad datganoledig sy’n canolbwyntio ar Gymru. Rydym yn darparu cyngor a chymorth arbenigol sy’n canolbwyntio ar y plentyn, yn diogelu plant ac yn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed mewn llysoedd teulu ledled Cymru fel bod penderfyniadau’n cael eu gwneud er eu lles pennaf. Mae Cafcass Cymru yn ymwneud â materion cyfraith breifat ar ôl i gais gael ei gyflwyno i’r llys. Mae ein swyddogaeth yn cynnwys gweithio’n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd i ddiogelu a hybu lles plant sy’n mynd drwy’r system cyfiawnder teuluol a chynghori’r llys ynghylch yr hyn yr ydym ni yn ei ystyried fydd er eu lles pennaf. Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys darparu adroddiadau diogelu ymholiadau ac ymgymryd â datrys anghydfod yng ngwrandawiad cyntaf penodiad datrys anghydfod (FHDRA), paratoi adroddiadau effaith ar blentyn yn unol ag adran 7 o Ddeddf Plant 1989 a chynrychioli plant pan gawn ein penodi’n Warcheidwad Plant o dan reol 16.4 o Reolau Trefniadaeth Teulu.

2. Mae Cafcass Cymru wedi bod yn aelod gweithredol o weithgorau’r Llywydd a sefydlwyd i edrych ar arferion, prosesau a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau i’r system cyfiawnder teuluol mewn materion cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. Rydym wedi cydweithredu gyda chydweithwyr yn Cafcass i lunio datganiad ar y cyd ynghylch materion sy’n gyffredin i gyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus, a hefyd i baratoi ein hymateb i adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat (PLWG).

3. Rydym yn cefnogi’n llawn prif egwyddorion y Rhaglen Trefniadau Plant presennol a nodau’r gweithgor i wella’r broses fel ei bod yn gweithio’n well i blant a’u teuluoedd. Rydym yn cydnabod, i gyfran o deuluoedd, nad y llys yw’r lle gorau i ddatrys eu hanghydfodau. Fe wyddwn y gall achos llys gynyddu gwrthdaro rhwng rhieni, sydd yn ei dro yn niweidiol i blant. Rydym yn cefnogi’r egwyddor, pan fo’n ddiogel i wneud hynny, o annog rhieni sydd wedi gwahanu i geisio gwasanaethau sydd wedi eu cydlynu a all eu helpu i wneud cytundebau ar gyfer eu plant mewn amgylchedd nad yw’n ymosodol. Rydym y cefnogi’r alwad i hyn gael ei atgyfnerthu drwy addysgu cyhoeddus ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yng Nghymru a Lloegr, gyda’r bwriad o effeithio ar newid diwylliannol a nodi disgwyliadau ynghylch y ffordd orau i ymdrin ag anghydfodau teuluol.

## Cwestiynau Ymgynghoriad (Atodiad 12 o adroddiad PLWG)

4. **Cymorth cynnar: SSFA a MIAM (cwestiynau a + b):** Mae Cafcass Cymru yn cefnogi ffurfio cynghrair o wasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd wedi gwahanu (SSFA). Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau presennol Rhaglen Lywodraethu Cymru ar gyfer plant a theuluoedd, er enghraifft darparu cymorth cydlynol estynedig ar gyfer cymorth rhianta, yn canolbwyntio ar rianta cadarnhaol ac ymyrraeth gynnar, a gwasanaethau ataliol i wella cydnerthedd rhieni a phobl ifanc. Dylid nodi fod y mentrau llywodraeth presennol y cyfeiriwyd atynt yn ymateb Cafcass fel sylfaen bosib ar gyfer seilwaith y gynghrair yn berthnasol i Loegr yn unig (Rhaglen Deuluoedd Cythryblus, Canolfannau Cymorth Cynnar, Rhaglen Lleihau Gwrthdaro Rhwng Rhieni). Byddai rhaid i hunaniaeth a strwythur trefnu'r SSFA ystyried y cyd-destun cyfreithiol a chyllidol gwahanol a geir yng Nghymru, i sicrhau ei fod yn addas ac y gellir ei weithredu yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn cynnig bod angen mentrau cydgysylltiedig cynaliadwy tymor hir i ddarparu ymyrraeth gynnar gyda'r nod o leihau gwrthdaro rhwng rhieni ac sy'n cefnogi cydnerthedd teuluoedd, gan ganolbwyntio ar Gymru a Lloegr, er mwyn galluogi'r newid diwylliannol sydd ei angen i leihau'r llif o geisiadau cyfraith breifat.

5. Mae Cafcass Cymru yn cytuno y dylid cynnwys ystod eang o wasanaethau cymunedol ac arbenigol yn yr SSFA. Hefyd, awgrymwn y dylai'r gynghrair gynnwys sefydliadau a gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion gwahaniaeth plant a theuluoedd gan gynnwys pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT), ac anableddau. Yng Nghymru dylai datblygu SSFA ystyried anghenion poblogaeth Cymru o ran iaith a mynediad i wasanaethau. Nid ydym yn argyhoeddedig y dylai'r Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol (LFJB) chwarae rhan yn y cynghreiriau lleol, ac rydym yn bryderus ynghylch pa un a ydynt yn gymwys ac â'r adnoddau a'r aelodaeth iawn i ddarparu arweiniad a chyd-drefnu'r SSFAau yn effeithiol. Hefyd, nid yw'n eglur inni fod rhoi rhan i'r LFJB ei chwarae yn cyd-fynd â'r neges o gael pobl, pan fo'n bosib, i ddatrys eu hanghydfodau y tu allan i system y llysoedd.

6. Rydym yn cytuno â barn Cafcass o ran y cynigion i gryfhau ac adfywio'r Cyfarfod Gwybodaeth Cyfryngu ac Asesu (MIAM). Yn ôl profiad ymarferwyr Cafcass Cymru, pan fo ymddiriedaeth wedi ei dorri, mae rhieni yn aml eisiau sicrwydd dogfen ffurfiol. Mae'n dilyn felly y byddai prosiect treialu, pryd y caiff cytundebau rhianta a wnaethpwyd drwy gyfryngiad ddod yn ddogfennau agored, yn brosiectau gwerthfawr wrth archwilio pa un a fyddai hyn yn cynyddu hyder rhieni mewn system o ddatrys anghydfod heb angen llys.

7. **Porthgadw, brysbennu a thracio (cwestiynau c + d):** Rydym yn cefnogi egwyddor y newidiadau a gynigir; rydym yn ystyried ei bod yn debygol y byddai'r broses o borthgadw a brysbennu yn cymryd lle'r dull o weithredu presennol o 'un ateb sy'n addas i bawb' yn cynyddu effeithiolrwydd arferion llysoedd. Mae Cafcass

Cymru yn cytuno â'r egwyddor o swyddogaeth wedi ei thargedu'n fwy gan gynnwys gwneud argymhellion ar gyfer y camau nesaf yn ein hadroddiadau diogelu. Gall hyn o bosibl gynnwys cyngor ynghylch pa un a allai plant gymryd rhan yn gynt mewn achosion neu mewn cyfryngiad a sut y gwneir hynny (gweler hefyd baragraff 16). Rydym yn cytuno â sylwadau Cafcass o ran porthgadw ceisiadau yn gryfach fel na chaiff ceisiadau na ellir eu symud ymlaen oherwydd diffyg gwybodaeth sylfaenol eu hanfon i Cafcass/ Cafcass Cymru; Byddai cael eglurder ynghylch pa un a ddylai ceisiadau anghyflawn gael eu derbyn gan y llysoedd yn fuddiol hefyd.

8. Er mwyn darparu'r cyngor gorau posibl ac i helpu ansawdd argymhellion ar gyfer dyrannu achosion i'r traciau priodol (a chynnig y camau nesaf gan gynnwys cyfeirio i wasanaethau ac adnoddau eraill) bydd yn hanfodol i gytundebau / cynlluniau rhianta / dogfennau cyfryngiad cyn llys presennol gael eu datgelu i Cafcass / Cafcass Cymru gyda'r ffurflen gais. Bydd Cafcass Cymru (a Cafcass) yn cynnal dadansoddiad data ac ymarfer tracio achosion i'n helpu ni i ganfod nifer tebygol yr achosion a fyddai'n cael eu dyrannu i bob trac.

9. Er ein bod yn derbyn y neges i'r heddlu a'r awdurdodau lleol ynghylch pwysigrwydd darparu gwybodaeth diogelu ar amser, nid oes gan y cynigion lawer i'w ddweud ynghylch sut y byddai'r broses yn ymdrin ag achosion pryd nad yw gwybodaeth ddiogelu gan drydydd parti ar gael erbyn y dyddiad ffeilio adroddiad, neu pryd nad oedd hi'n bosib cynnal cyfweliadau diogelu dros y ffôn gyda'r ddau barti. Byddai effeithiolrwydd brysbennu a dyrannu i draciau yn lleihau petai'r lefelau uchel presennol o adroddiadau diogelu anghyflawn sy'n cael eu ffeilio gan Cafcass Cymru yn parhau, oherwydd na chafodd wiriadau'r heddlu neu'r awdurdodau lleol eu dychwelyd mewn pryd neu oherwydd i Cafcass Cymru fethu â siarad â'r ddau barti. A yw'n bosib pan fo gwiriadau asiantaethau heb eu penderfynu neu'n angenrheidiol (megis gwiriadau uwch yr heddlu) fod yr adroddiad/llythyr diogelu yn argymell bod gorchymyn llys yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r asiantaeth berthnasol ar gyfer datgeliad? Ynghlwm wrth hyn fe fyddai o gymorth petai eglurder ynghylch ble mae cyfrifoldeb Cafcass Cymru yn cychwyn a gorffen o ran darparu gwybodaeth ddiogelu i'r llys - er enghraifft yn gysylltiedig â gwiriadau asiantaethau sydd heb eu penderfynu. Ni fyddai Cafcass Cymru yn gallu cynnal y lefelau presennol o anghydsyniad o ran gwiriadau asiantaethau.

10. Wrth ymgymryd â phorthgadw ac ystyried pa un a oes angen gwybodaeth benodol gan awdurdod lleol neu gan asiantaeth trydydd parti arall ar gyfer brysbennu, dylid rhoi ystyriaeth i osgoi pwysau diangen ar adnoddau'r sector cyhoeddus gan lysoedd yn gofyn am wybodaeth sydd wedi ei chynnwys fel mater o drefn yn ymholiadau Cafcass / Cafcass Cymru. O ganlyniad gall hyn achosi dyblu ymdrechion dwy asiantaeth neu fwy.

11. Mae Cafcass Cymru yn cytuno y dylid dosrannu gwaith rhwng traciau 1 a 2 yn seiliedig ar gymhlethdod a'r perygl o niwed. Bydd yn bwysig deall y gyfran o achosion sy'n debygol o gael eu dyrannu i bob trac a deall ble yn y broses y gellir defnyddio datrysiad anghydfod yn y llys fwyaf effeithiol. Rydym yn cytuno nad oes raid i Cafcass/ Cafcass Cymru fod â rhan uniongyrchol yn y cyfarfod brysbennu. Awgrymwn y gallai trefniadau cyswllt yng Nghymru ategu'r "protocol llinell gymorth ar gyfer achosion 16.4" sydd eisoes ar waith pryd y caiff barnwyr / cynghorwyr cyfreithiol llysoedd gysylltu â rheolwr ar ddyletswydd dros y ffôn.

12. Bydd cynllun treialu o fudd i fonitro pa un a yw unrhyw ostyngiad yn nifer y cyfarfodydd datrys yn arwain at gynnydd yn nifer yr adroddiadau dadansoddi effaith ar blentyn / adran 7, neu gynnydd yn y nifer o geisiadau sy'n dychwelyd yn achosion trac 1 sydd wedi eu cwblhau gan wrandawiad diannod yn hytrach na thrwy ddatrys anghydfod mewn llys.

13. Ar hyn o bryd mae Cafcass Cymru yn buddsoddi adnodd sylweddol wrth ddarparu datrysiad anghydfod yng nghyfarfod yr FHDRA. Yn ein profiad ni gall rhoi amser i rieni drafod yr anghydfod a'u pryderon, a pheri iddynt, mewn modd medrus, ganolbwyntio ar anghenion, lles a buddion eu plant arwain at ddealltwriaeth newydd ymhlith y rhieni gyda chytundebau yn cael eu cyflawni yn y Llys sy'n osgoi'r angen am wrandawiad arall neu adroddiad Adran 7. Cyflawnir hyn drwy berthynas waith dda gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) a chael amser digonol mewn achosion priodol i gynnal cyfarfodydd datrys anghydfodau effeithiol. Awgryma dadansoddi blaenorol fod 32% o achosion wedi eu datrys yn yr FHDRA. Yr hyn nad yw'n glir ar hyn o bryd yw'r gyfran o achosion o'r fath sydd yn y pendraw yn dychwelyd i'r Llys. Mae Cafcass Cymru yn bwriadu ymgymryd ag ymarfer tracio a fydd yn gwella ein dealltwriaeth o ganlyniadau tymor hwy sampl o achosion a gafodd eu datrys yn yr FHDRA yn 2018-19.

14. **SPIPS/WT4C (cwestiwn e)** Rydym yn cytuno â'r egwyddor bod y llys yn gorchymyn rhieni i gymryd rhan yn y rhaglen wybodaeth i rieni sydd wedi gwahanu (SPIP/ WT4C) pan fo'n ddiogel gwneud hynny cyn i'r rhieni ddod i'r llys, hynny yw, ar gyfer achosion pan fo'r adroddiad diogelu wedi ei gwblhau ac nad oes materion ynghylch diogelu neu faterion yn ymwneud â cham-drin domestig angen eu hystyried. Nodwn y byddai angen inni ymdrin ag ymarferoldeb a chyllid y WT4C yng Nghymru. Byddai'n rhaid cael system fel bo'r Llys yn cael gwybod am ganlyniad yr ymyrraeth, er mwyn gwybod a oes angen gwrandawiad o hyd. Rydym yn cytuno â barn Cafcass efallai y gellid cynyddu effeithiolrwydd petai SPIP/ WT4C yn cael ei gyfuno â rhieni yn mynd drwy broses o gyfryngu. Efallai na fyddai'r amserlenni a gynigir yn realistig - petai brysbennu'r achos yn digwydd 4-6 wythnos ar ôl cyflwyno a'r disgwyl yw y bydd achosion trac 1 yn cael eu cwblhau mewn 8-10 wythnos, mae'n debygol na fyddai hyn yn gadael digon o amser i rieni ddilyn y cwrs cyn gwrandawiad.

15. **Dychwelwyr (cwestiwn f)** Mae Cafcass Cymru yn cytuno a'r egwyddor o ddyrannu achosion gorfodi/sy'n dychwelyd, yn gynnar i'r tribiwnlys gwreiddiol ar gyfer brysbennu a thynnu ffurflen gais C79 yn ôl. Bydd yr ymarferion tracio achosion sydd ar y gweill gan Cafcass Cymru (a Cafcass) hefyd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am natur achosion sy'n dychwelyd. Bydd hyn yn helpu i sefydlu a phrofi meini prawf ar gyfer achosion a roir ar drac 3 a darparu gwybodaeth ynghylch faint ohonynt fyddai'n addas ar gyfer trac 1. Gallai hyn helpu i ystyried sut y diffinnir achosion sy'n dychwelyd, gan gynnwys ystyried a oes angen amserlenni ar gyfer achosion a fyddant yn cael eu trin fel dychwelwyr o fewn yr amserlenni hynny.

16. Ar hyn o bryd gwneir ceisiadau am wiriadau diogelwch yn y mwyafrif o achosion sy'n dychwelyd. Mewn achosion pan nad yw'r llys yn gwneud cais am wiriadau diogelwch ond yn nodi'r achos dros wrandawiad ar frys, efallai bod angen system i sicrhau nad yw materion ynghylch pryderon diogelu newydd, cam-drin domestig neu ymddygiad cymhellol a rheolaethol yn cael eu hesgeuluso, ac y nodir unrhyw anghenion diogelwch ar gyfer partïon yn y llys ac y gwneir y ddarpariaeth briodol. Gallai hyn fod drwy wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad o wrandawiad, sy'n dangos yr hyn y dylai parti ei wneud os cred ei fod ef neu blentyn mewn peryg o niwed.

17. **Sylwadau ar argymhellion eraill nad ymdriniwyd â nhw mewn unrhyw le arall (cwestiwn g)**: **Llais y Plentyn**: Mae Cafcass Cymru yn cytuno y dylai unrhyw gynllun treialu yn y dyfodol gynnwys dulliau arferion gorau ar gyfer cael a chynnwys barn y plant. Rydym yn cytuno â barn Cafcass, am yr un rhesymau, o ran cynnal yr arfer presennol o beidio â cheisio dymuniadau a theimladau plant yn uniongyrchol cyn y gwrandawiad cyntaf. Awgrymwn weithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc (FJYPB) o ran datblygu cyfranogiad pobl ifanc, cael gafael ar sylwadau plant a phobl ifanc a'u cynnwys ar adeg briodol a chymesur yn ystod achosion, a rhannu canlyniadau â phlant. Bydd angen i hyn gynnwys ystyriaeth fanwl o ymarferoldeb darparu llythyr neu orchymyn wedi ei lunio mewn modd addas i'r plant dan sylw, gan gynnwys pwy sydd i ddarparu hyn.

18. **Newidiadau i gynlluniau treialu** Mae Cafcass Cymru yn croesawu'r cyfle i dreialu unrhyw ddull o weithredu newydd. Bydd rhaid i gynlluniau'r cynllun treialu ystyried y gwahaniaethau rhwng y cyd-destun yng Nghymru a'r cyd-destun yn Lloegr, a chael yr adnoddau priodol. Rydym yn cytuno â barn Cafcass y bydd angen gwaith cynllunio sylweddol ar y broses; mae'r llysoedd wedi cael trafferth wrth weithredu agweddau ar y CAP presennol, er enghraifft cyflawni rhestrau llys yr FHDRA yn effeithiol, sicrhau bod MIAMau yn digwydd, cael ceisiadau a gorchmynion mewn da bryd. Bydd yn bwysig lleihau'r risg y byddai cyflwyno

cymhlethdodau ychwanegol i’r broses yn gallu achosi mwy o oedi, ac felly cynyddu’r risg o niwed i blant.

19. **Cyffredinol (cwestiwn h)** Ein barn ni yw y dylid defnyddio pob modd posibl o ddarparu gwybodaeth eglur i sicrhau bod gan ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth / ymgyfreithwyr drostynt eu hunain wybodaeth mor eglur â phosib ynghylch y broses llys a bod ganddynt ddisgwyliadau realistig o ran yr hyn y gellir ei gyflawni yn y llys teuluol. Mae angen lefel o gyd-cysylltu i sicrhau y ceir negeseuon eglur a chyson wedi eu seilio ar dystiolaeth ar wefannau perthnasol, taflenni gwybodaeth ac ati gan gynnwys pyrth ceisiadau Llys digidol, Cafcass, Cafcass Cymru, Y Cyngor Cyfryngu Teuluol Cenedlaethol, gwefannau rhianta Llywodraethau Cymru a Lloegr. Bydd hon yn elfen bwysig wrth gyflawni’r newid diwylliannol tuag at ffyrdd mwy cydweithredol o wneud trefniadau er budd pennaf plant ar ôl i rieni wahanu.

20. Rydym yn cytuno â barn Cafcass y bydd yn rhaid i PLWG ystyried newidiadau mewn arferion yn sgil y Bil Cam-drin Domestig arfaethedig, adolygiad cyflym Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; a Chanllawiau’r Cyngor Cyfiawnder Teuluol ynghylch cam-drin domestig. Yng Nghymru mae’r Ddeddf Trais Yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 mewn grym, a’i diben yw gwella ataliad, amddiffyniad a chefnogaeth ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan bob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru. Gosodir dwy ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus yn y Ddeddf, sef Y Rhwydwaith Hyfforddi Cenedlaethol a’r fenter ‘Gofyn a Gweithredu’. Er nad ystyrir Cafcass Cymru yn un o’r ‘cyrff cyhoeddus’ yn y Ddeddf, mae wedi ymwneud â phrif negeseuon a hanfod y Ddeddf ac wedi gweithio’n agos gyda chydweithwyr o’r sector arbenigol ac wedi ceisio ymgysylltu â goroeswyr cam-drin domestig i lywio canllawiau ymarfer cam-drin domestig mwyaf cyfredol y sefydliad. Mae Cafcass Cymru yn cydnabod yr heriau y mae goroeswyr cam-drin domestig yn eu hwynebu a’u plant sy’n defnyddio’r llys teuluol, croesawn unrhyw gyfle i’r llys ymyrryd yn gynnar pan nodir cam-drin domestig (gan gynnwys ymddygiad cymhellol a rheolaethol). Mae Cafcass Cymru yn cytuno â Cafcass o ran ein bod yn croesawu newidiadau priodol yn cael eu gwneud i sicrhau bod diogelu ac amddiffyn plant yn cael blaenoriaeth gan y llys teuluol a’u bod fel ei gilydd wedi ymrwymo i hybu perthynas ddiogel ag eraill.

21. Ar hyn o bryd, mewn lleiafswm o achosion nid yw gorchymyn olaf yn dod i law; dylid anfon gorchmynion olaf llys i Cafcass/ Cafcass Cymru mewn pob achos cyfraith breifat y mae gennym ni ran ynddo. Byddai hyn o gymorth wrth fonitro canlyniadau ar gyfer plant a’n galluogi ni i nodi unrhyw newidiadau yng nghyfradd yr achosion sy’n dychwelyd.

22. Rydym yn ystyried y gallai fod o fudd i atal dros dro darged cyflawni ar gyfer achosion cyfraith breifat yn ystod gweithredu’r cyfnod treialu. Gallai tynnu’r

pwysau oddi ar lysoedd i gwblhau achosion mor gyflym â phosib wella cyfraddau presenoldeb MIAM drwy borthgadw cryfach, ac mewn achosion addas gallai hefyd roi amser digonol i geisio cyrraedd cytundeb drwy gyfryngu neu wasanaethau tebyg, sy'n debygol o arwain at ganlyniad gwell i'r plentyn.

Cafcass Cymru
Medi 2019